# TGAU CYNLLUN MARCIO

**HAF 2016**

**CYMRAEG AIL IAITH – CYMHWYSOL**
**4561/01 a 4561/02**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.



© WJEC CBAC Cyf.

**C.1** **15 marc**

(i) Llenwi grid. 1 marc yn un = **4 marc**

| | |
|---|---|
| Tref agosaf / sir yr ynys | **Dinbych-y-pysgod / Sir Benfro** |
| Rhif ffôn | **(01834) 844453** |
| E-bost | **help@ynysbyr.co.uk** |
| Sawl person sy'n byw yno? | **40 / pedwar deg** |

(ii) Dewis lluniau. 1 marc yr un = **3 marc**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| | ✓ | ✓ | ✓ | |

(iii) Llenwi poster gwybodaeth. 1 marc am bob ateb = **3 marc**

- Hydref
- (Dydd) Sul / diwrnod preifat y mynachod
- 5.00 / Pump o'r gloch

(iv) Neges e-bost = **5 marc (2 + ✓ = 3)**

(1) St Philomena = 1 marc
(2) Bwyd yn y pris / Nac oes / Dim problem bwyd = 1 marc

**3 marc iaith** = 1 marc iaith am bob ateb fel brawddeg gywir = 2 farc posibl.
3ydd marc iaith am gyfarchiad **neu** ddiwedd priodol
Mae eisiau ymdrech i ymateb y cwestiynau cyn gwobrwyo marc iaith am gyfarchiad/clo.



© WJEC CBAC Cyf.

## C.2 Llenwi ffurflen

**Cynnwys** **8 marc**

- Dim clod am enw
- **Ysgol / Coleg** – y lleoliad yn Gymraeg. Enw'r ysgol yn Saesneg ond y gair ysgol yno **(1 marc)**
- **Oed** – y rhif yn Gymraeg neu'r ateb mewn brawddeg e.e. Dw i'n 16 oed. **(1 marc)**
- **Dyddiad Geni** – y mis yn Gymraeg **(1 marc)**
- **Hoff Bynciau TGAU** – unrhyw 2 bwnc ysgol **(2 farc)**
- **Sgìl Arbennig** – unrhyw ateb synhwyrol e.e. siarad Cymraeg, tystysgrif cymorth cyntaf... **(1 marc)**
- **Ble hoffech chi fynd ar brofiad gwaith?** – unrhyw ateb synhwyrol e.e. hoffwn i fynd i'r ganolfan hamdden, dw i eisiau profiad gwaith mewn ysgol... **(1 marc)**
- **Beth hoffech chi wneud ar ôl TGAU?** – unrhyw ateb synhwyrol e.e. lefel A, dosbarth chwech, mynd i'r coleg, astudio chwaraeon... **(1 marc)**
- **Llofnod** - dim marc

**Mynegiant** **7 marc**

**2 farc** am bob brawddeg gywir / **1 marc** am ymadrodd estynedig (+ berf) / mynegi barn perthnasol (hyd at 6 marc)
**1 marc** ychwanegol posibl am iaith e.e. sillafu, geirfa berthnasol...

Gwobrwyir y defnydd o frawddegau llawn ac amrywiaeth o gystrawennau wrth gyfleu'r wybodaeth berthnasol e.e. Fy hoff bynciau ydy Ffrangeg a Hanes, mae'r tystysgrif nofio gyda fi, Rydw i'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, Hoffwn i fynd i'r garej...
Gwobrwyir yn ogystal sillafu cywir a chyfathrebu ystyrlon.

Dim gwobrwyo yr un gystrawen yn fwy na dwywaith.



© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 (Sylfaenol)**
**C.1 (Uwch)** **20 marc**

(i) Llenwi grid – **14 marc (1 marc am bob ateb cywir)**

| | | |
|---|---|---|
| Enw cyswllt | **Jac Rogers** | **Ella Williams** |
| Cyfeiriad | **Stryd yr Angor, Llandre (derbyn gwefan)** | **Heol y Waun, Llandre (derbyn gwefan)** |
| Rhif Ffôn | **09788277360** | **01872 782993** |
| E-bost | **help@canolfanycrud.com** | **e.williams@nantycwm.com** |
| Dyddiad posibl | **Awst 30** | **Awst 25** |
| Lle i sawl person? | **200** | **180** |
| Bwyd posibl? | **bwffe** | **brechdanau** |

(ii) Dewis personol a rheswm – **2 farc** (Does dim modd ennill marciau am ail-adrodd atebion y grid)

| |
|---|
| Dewis<br>Naill ai **Canolfan (y Crud)** neu **Nant y Cwm** |
| Rheswm<br>Canolfan y Crud – mae'n boblogaidd / hapus i helpu gyda'r trefnu / pris yn rhesymol / y staff yn siarad Cymraeg<br>Nant y Cwm – hapus i hysbysebu'r lansiad / ffotograffydd gyda nhw / technegydd i helpu |

**Marciau cywirdeb iaith**

Hyd at 4 marc (adran ii yn unig)

2 farc am bob brawddeg gywir e.e. Dw i'n dewis Nant y Cwm / Hoffwn i ddewis Canolfan y Crud / Bydd hysbysebu'r lansiad yn helpu / Mae ffotograffydd gyda nhw / Mae'r pris yn rhesymol



© WJEC CBAC Cyf.

**C.4 (Sylfaenol)**
**C.2 (Uwch)** **20 marc**

**Rhan A: Cyfieithu - 10 marc (1 marc yr un)**

(1) PWYSIG/ BWYSIG
(2) Bydd problem / problemau
(3) yn y cantîn / yn y ffreutur / yn yr ystafell fwyta / yn y gegin / yn y caffi / tŷ bwyta
(4) dydd Mawrth
(5) Fydd dim / bydd dim / does dim
(6) bwyd poeth / twym / cinio poeth
(7) Bydd brechdanau
(8) yn stafell saith / dosbarth saith
(9) Os oes problem / problem? / unrhyw broblemau / os oes cwestiwn
(10) e-bostiwch Jack

1 marc am unrhyw 2 o'r canlynol:
bwyd / poeth / brechdanau / stafell / bwyta / saith / Mawrth

**Rhan B: Ysgrifennu e-bost – 10 marc**

**Cynnwys** **10 marc**

Rydych chi'n helpu i hyfforddi'r tîm rygbi dan 15 oed. Roedd gemau gyda'r tîm yn Lloegr yn ddiweddar ond roedd y gwesty yn siomedig iawn. Rydych chi'n ysgrifennu at reolwr y gwesty i gwyno.

Cyflwyniad = 1 marc (enw a rheswm dros ysgrifennu)
Problemau = 2 farc (1 marc am bob problem)
Y cam nesaf = 1 marc
Unrhyw beth arall = 1 marc

**Mynegiant** **5 marc**

Gwobrwyir:

(1) y gallu i gyfathrebu'n ystyrlon
(2) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm
(3) y gallu i ddefnyddio'r ferf, amser a pherson yn briodol
(4) y gallu i ddefnyddio patrymau brawddegol ffurfiol
(5) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrlon, llwyddiannus

| | | |
|---|---|---|
| O leiaf 3 cystrawen wahanol | 4 brawddeg gywir | 5 marc |
| O leiaf 2 gystrawen wahanol | 3 brawddeg gywir | 4 marc |
| O leiaf 2 gystrawen wahanol | 2 frawddeg gywir | 3 marc |
| Ymgais i greu paragraff | O leiaf 1 frawddeg gywir | 2 farc |
| Ymdrech i gyfathrebu gyda geirfa berthnasol | Dim brawddegau cywir | 1 marc |
| Dim i'w wobrwyo | | 0 marc |

Marc iaith methu bod yn uwch na'r cynnwys.


© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 (Uwch)**

**Cynnwys** **24 marc**

**Cywirdeb iaith: 6 marc**

(i) Llenwi cronfa ddata = **10 marc (1 marc am bob ateb cywir)**

| | |
|---|---|
| Dyddiad Sefydlu Ambiwlans Awyr Cymru | **2001** |
| Rhif ffôn cyswllt | **0844 85 84 999** |
| Gwefan | **www.ambiwlansawyrcymru.com** |
| Ateb sawl galwad bob blwyddyn? | **2,000** |
| Faint o arian sydd eisiau codi bob blwyddyn? | **6 miliwn / £6,000,000** |
| Prif swyddfeydd yr Ambiwlans Awyr | **Abertawe<br>Caernarfon<br>Wrecsam** |
| Siopau'r Elusen (x2) | **Llandudno, Pontypridd, Rhaeadr, Tywyn, Abertawe, Caernarfon, y Drenewydd (unrhyw 2 = 1 marc)** |
| Mis yr Wythnos Gwirfoddolwyr? | **(mis) Mehefin** |

(ii) Grid enwogion **[6 marc] – gofynnir am wybodaeth ar unrhyw 2 o'r isod**

(1 marc am enw'r person, 2 farc am wybodaeth ychwanegol)

| | |
|---|---|
| Rhys Meirion | **Wedi codi dros £1,000,000 / taith gerdded / hysbysebu'r gwaith mewn ffordd ymarferol** |
| Bryn Terfel | **Recordio 2 CD / recordio Anfonaf Angel / Guardian Angel / arian y CDs yn mynd at elusen** |
| Lucie Jones / Robin Mcbryde / Iolo Williams / Elin Fflur | **Helpu Rhys Meirion / cerdded gyda Rhys Meirion / rhan o'r daith gerdded i godi arian** |
| Simon Richardson | **Seiclo 125 milltir i godi arian** |

(iii) Yn olaf, rhaid i chi ysgrifennu e-bost at bwyllgor y loteri yn gofyn am gymorth. Rhaid i chi gynnwys:

- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu (1 marc)
- disgrifiad o waith yr elusen (hyd at 2 farc)
- pwysigrwydd yr elusen (hyd at 3 marc)
- cloi effeithiol gyda manylion cyswllt. (hyd at 2 farc)

**(8 marc + ✓ = 6)**

Marciau cywirdeb iaith [6 marc]. Rhan (ii) yn unig
1 marc am bob brawddeg gywir, hyd at 6 marc posibl



© WJEC CBAC Cyf.

## C.4 YSGRIFENNU

### Ysgrifennu erthygl fer yn enwebu "Sir Orau Cymru" (30 marc)

**Cynnwys** **15 marc**

Gwobrwyir:
- ymatebion diddorol a chymwys
- dilyniant rhesymegol a strwythur amlwg
- barn bendant a synhwyrol
- ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
- ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

Rhaid i chi:
- gyflwyno eich hunan a'ch rheswm dros ysgrifennu (hyd at 2 farc)
- cyflwyno eich sir / Cymru (hyd at 3 marc)
- sôn am y pwyntiau da i'r bobl leol (hyd at 4 marc)
- cyfeirio at gyfleusterau i'r twristiaid (hyd at 4 marc)
- gorffen yr erthygl yn briodol (hyd at 2 farc)

**Does dim modd i'r marc mynegiant fod yn uwch na'r marc cynnwys**

**Mynegiant** **15 marc**

Gwobrwyir:

- y gallu i gyfleu syniadau a mynegi barn yn llwyddiannus
- y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- cywirdeb ac ymdrech i gynnal cysondeb o ran amserau'r ferf
- ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b.
- ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn a barn a syniadau

13-15 Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Syniadau a barn aeddfed. Elfen gref o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.

10-12 Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Llawer o syniadau. Elfen gref o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.

7-9 Mynegiant derbyniol ac ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac ymdrech i gyfathrebu'n ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb iaith ond peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Tueddiad i gadw at y disgwyliadau.

4-6 Yn is na'r canolig – yn defnyddio rhai patrymau brawddeg sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau a pheth anhawster wrth fynegi barn.

1-3 Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn.

0 Dim i'w wobrwyo.



© WJEC CBAC Cyf.